Hawliau Trydydd Parti - Cymorth gyda Chasglu Taliadau Budd-dal neu Bensiwn

Taliad Uniongyrchol yw dull arferol yr Adran o dalu budd-daliadau a phensiynau. Mae'n ddull diogel, cyfleus, modern ac effeithlon o dalu sy'n rhoi llawer mwy o ddewis i bobl am bryd a ble y gallant gasglu eu harian.

Efallai y bydd angen i gwsmeriaid na allant gasglu eu budd-dal eu hunain wneud trefniadau amgen naill ai dros dro neu'n barhaol.

Efallai y bydd angen i rywun arall gael taliadau ar ran cwsmeriaid eraill am na allant reoli eu materion eu hunain mwyach. Gall cwsmeriaid ofyn am hyn neu gellir ei drefnu ar eu rhan, er enghraifft, drwy Bŵer Atwrnai/penodai

Opsiynau cyfrif

Mae llawer o ddarparwyr cyfrifon yn caniatáu i rywun arall gael mynediad cyfreithlon i gyfrif y cwsmer gyda'i ganiatâd. Bydd yr union drefniadau yn dibynnu ar y math o gyfrif a pha ddarparwr cyfrif sydd ganddo. Dylai cwsmeriaid gysylltu â'u banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall i holi pa drefniadau sydd ar gael.

Nid argymhellir o dan unrhyw amgylchiadau y dylai'r cwsmer ddatgelu ei rif PIN (Rhif Adnabod Personol) i rywun arall er mwyn iddo gael mynediad i'w gyfrif.

Gellir cael mynediad at bob cyfrif banc sylfaenol a rhai cyfrifon cyfredol mewn canghennau Swyddfa'r Post® drwy naill ai sieclyfrau neu gardiau a PIN. Os yw'n bwysig eich bod yn gallu cael mynediad i'ch cyfrif yn Swyddfa'r Post® dylech drafod hyn gyda darparwr y cyfrif.

Cyfrifon syml yw cyfrifon banc sylfaenol y gellir eu defnyddio fel cam cyntaf tuag at agor cyfrif â mwy o nodweddion ond nid ydynt yn caniatáu gorddrafftiau na llyfrau siec. Nid yw rhai cyfrifon sylfaenol yn darparu cyfleuster archeb sefydlog. Maent yn caniatáu debydau uniongyrchol, cerdyn arian parod a chyda'r rhan fwyaf o gyfrifon gellir codi arian parod mewn Swyddfeydd Post®.

Dylai cwsmeriaid fod yn ymwybodol y gallai gymryd peth amser i drefnu i rywun arall gael mynediad i'w cyfrif oherwydd bydd angen datrys materion yn ymwneud ag adnabod a dilysu.

Talu i mewn i gyfrif banc ar y cyd

Gall cyfrif ar y cyd ganiatáu i ddau ddeiliad cyfrif a enwir gael mynediad i'r arian mewn canghennau, peiriannau codi arian ac mewn rhai achosion, wrth gownteri Swyddfa'r Post®. Gall y trefniant hwn olygu nad oes angen i gwsmeriaid weithredu cyfrif eu hunain ac mae'n galluogi deiliad ychwanegol y cyfrif i reoli pob agwedd ar y cyfrif ar ran y cwsmer. Drwy ddarparu cerdyn a rhif PIN i ddau ddeiliad y cyfrif gallant gael mynediad i'r cyfrif yn hawdd.

Pethau i'w hystyried

Gall pob deiliad cyfrif ar y cyd godi'r holl arian a gall banciau ofyn i unrhyw un ohonynt dalu'r swm cyfan sy'n weddill os bydd y cyfrif mewn dyled (y term technegol am hyn yw "atebolrwydd lluosog ac ar y cyd").

I weithredu cyfrif ar y cyd, bydd angen i bob parti fod yn llwyr atebol am redeg y cyfrif. O ganlyniad nid yw hyn fel arfer yn opsiwn os na all y cwsmer reoli ei faterion ei hun a bod angen penodai i weithredu ar ei ran. Fodd bynnag, lle mae trefniant cyfrif ar y cyd hirsefydlog (rhwng, er enghraifft, gŵr a gwraig) efallai y bydd y banc yn fodlon gadael i hyn barhau.

Ni all cwsmeriaid sydd â chyfrif cerdyn Swyddfa'r Post (POca) gael cyfrifon ar y cyd; rhaid bod POca yn enw un person yn unig.

Talu i mewn i gyfrif rhywun arall

Gellir talu taliadau budd-dal neu bensiwn i mewn i gyfrif rhywun arall (trydydd parti) os yw telerau ac amodau'r cyfrif yn caniatáu hyn. Dylai deiliad y cyfrif fod yn rhywun y mae'r person yn ymddiried ynddo, perthynas neu ffrind agos fel arfer. Bydd yn rhaid i'r cwsmer gael caniatâd deiliad y cyfrif ac awdurdod i ddefnyddio'r arian yn y ffordd y bydd yn dweud wrthynt.

Pethau i'w hystyried

Rhaid bod deiliad y cerdyn hefyd yn ymwybodol bod gan DWP yr hawl i adennill unrhyw arian a ordalwyd oherwydd y ffordd y mae'r system yn gweithio o ran gwneud taliadau i mewn i gyfrif. Er enghraifft, efallai y bydd y cwsmer yn rhoi gwybodaeth i DWP sy'n golygu na ddylai fod wedi cael cymaint o arian, ond efallai na allwn newid y swm sydd eisoes wedi'i roi. Byddai DWP yn cysylltu â'r cwsmer cyn adennill unrhyw arian yn y ffordd hon.

Archeb Sefydlog i gyfrif rhywun arall

Os yw'r cyfrif yn darparu'r cyfleuster hwn, gall y cwsmer drefnu archeb sefydlog. Trosglwyddiad awtomatig yw hwn o swm penodol o arian i gyfrif rhywun arall yn rheolaidd (e.e. bob wythnos neu bedair wythnos).

Pethau i'w hystyried

Bydd angen i'r trydydd parti gael ei gyfrif ei hun ac efallai y bydd angen iddo aros i'r arian gael ei drosglwyddo cyn y gall gael mynediad iddo. Nid oes gan bob cyfrif y cyfleuster i wneud taliadau drwy archeb sefydlog.

Mandad Trydydd Parti

Mae mandad trydydd parti yn gyfarwyddyd ffurfiol i fanc gan berchennog cyfrif i ganiatáu i berson arall gael mynediad i'w gyfrif.

Mae telerau'r mandad yn nodi pa awdurdod sydd gan y trydydd parti. Mewn rhai achosion, gall y trydydd parti gael cerdyn a rhif PIN, a fydd hefyd yn ei alluogi i godi arian mewn peiriannau codi arian.

Pethau i'w hystyried

Byddai hyn ond yn addas i drefniant parhaol/hirdymor ar gyfer un person a enwir (e.e. perthynas neu ffrind y gellir ymddiried ynddo).

Er nad oes gan y trydydd parti unrhyw hawl cyfreithiol i'r arian bydd ganddo fynediad llawn i'r cyfrif ac felly gall godi arian heb yn wybod i'r cwsmer. Ni fydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn darparu cerdyn a rhif PIN i ddeiliaid mandad trydydd parti.

Gall cwsmer ganslo trefniant trydydd parti unrhyw bryd.

Asiant Parhaol - Cyfrif cerdyn Swyddfa’r Post (POca)

Gall cwsmeriaid sy'n cael eu taliadau drwy POca wneud cais i un person arall gael mynediad parhaol i'w cyfrif ond bydd yn **rhaid** i ddeiliad y cyfrif allu rheoli ei faterion ei hun. Gall Asiant Parhaol gael ei enwebu gan y cwsmer ar ffurflen gais sydd ar gael o Swyddfa'r Post®.

Caiff yr Asiant Parhaol ei gerdyn a'i rif PIN ei hun a fydd yn ei alluogi i gael mynediad cyfyngedig i gyfrif y cwsmer, sy'n ei alluogi i godi arian wrth gownter Swyddfa'r Post® neu mewn peiriannau codi arian Swyddfa’r Post®. Bydd hefyd yn gallu cael ymholiadau am falans dros y cownter neu o'r peiriant codi arian. Nid oes gan yr Asiant Parhaol unrhyw fynediad arall i'r cyfrif. Ni all

drafod y cyfrif gyda Llinell Gymorth Gwasanaeth Cwsmeriaid Swyddfa'r Post® na gofyn am unrhyw weithred ar ran y cwsmer.

Dim ond i gasglu taliadau ar ei ran y bydd y cwsmer yn awdurdodi'r Asiant Parhaol. Mae'r cwsmer yn parhau'n gyfrifol am hysbysu'r Adran am bob newid yn ei amgylchiadau ac yn parhau i gael mynediad i'w gyfrif drwy ei gerdyn a'i rif PIN ei hun.

Pethau i'w hystyried

Er nad oes gan yr Asiant Parhaus unrhyw hawl cyfreithiol i'r arian, bydd ganddo fynediad llawn i'r arian yn y cyfrif ac felly gall godi arian heb gymeradwyaeth y cwsmer.

Dim ond i'r Asiant Parhaol y dylid rhoi pŵer i gael mynediad i'r cyfrif. Ceidw'r cwsmer gyfrifoldeb llawn am y cyfrif.

Trefniadau mewn argyfwng

Os byddai argyfwng lle na all y cwsmer gasglu arian am gyfnod gallai'r cwsmer ddarparu siec i'r trydydd parti. Gall banciau neu gymdeithasau adeiladu dderbyn llythyr o awdurdod wedi'i lofnodi yn gofyn i drydydd parti allu codi arian o'r cyfrif.

Pethau i'w hystyried

Mae llythyr o awdurdod yn peri risg fawr o dwyll ac felly byddai unrhyw gyfleuster o'r fath yn cael ei ddarparu yn ôl disgresiwn ac fel trefniant untro yn unig fel arfer. Ni fydd pob banc neu gymdeithas adeiladu yn derbyn llythyr o awdurdod wedi'i lofnodi.

Cwsmeriaid na chânt eu talu drwy Daliad Uniongyrchol

Dim ond i bobl na allant agor na gweithredu unrhyw fath o gyfrif y dylid defnyddio sieciau.

Os na all y cwsmer gael ei dalu drwy Daliad Uniongyrchol, bydd yr Adran yn sicrhau y bydd yn cael ei fudd-dal/pensiwn o hyd drwy roi taliad drwy siec.

Gellir cyfnewid sieciau o dan werth penodol am arian parod yn un o ganghennau Swyddfa'r Post® neu eu talu i mewn i gyfrif banc. Rhaid talu sieciau gwerth uwch i mewn i gyfrif banc.

I gwsmeriaid sy'n dibynnu ar bobl eraill neu wahanol ofalwyr i gasglu eu harian drostynt, mae cyfleuster ar gefn y siec i'r cwsmer awdurdodi rhywun arall i gyfnewid y siec am arian parod ar ei ran.

Bydd angen i'r person sy'n cyfnewid y siec lofnodi datganiad ar gefn y siec i nodi ei fod yn ei gyfnewid am arian parod ar ran y cwsmer. Bydd angen i'r person sy'n cyfnewid y siec am arian parod ddangos tystiolaeth o fanylion adnabod y cwsmer a'i fanylion adnabod ei hun.

Pethau i'w hystyried

Mae'n rhaid i gwsmeriaid fod yn ymwybodol ein bod wedi dechrau proses i ddisodli'r siec gyfredol.

Byddwn yn sicrhau y bydd trefniadau addas ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio gofalwyr i gasglu eu taliadau a phobl na allant ddefnyddio cardiau plastig a PIN.

Caiff y penderfyniad i dalu'r cwsmer gyda siec ei adolygu'n rheolaidd.

Cwsmeriaid na allant reoli eu materion eu hunain

Penodeion

Os na all cwsmer reoli ei faterion ei hun yna gall yr Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi rhywun arall i weithredu ar ran y cwsmer. Gelwir hyn yn benodiad i weithredu a gelwir y person neu'r sefydliad a benodwyd i weithredu yn benodai. Ni phenodir penodai'r Ysgrifennydd Gwladol i ofalu am faterion unigolyn yn gyffredinol, dim ond i ddelio â hawl yr unigolyn i fudd-dal a thaliadau budd-dal.

Noder na fyddai gweithredoedd penodai yn briodol os yw Llys eisoes wedi penodi talai arall e.e. Dirprwy.

Os oedd gan y cwsmer gyfrif cyfredol cyn bod angen penodai arno, dylid annog y penodai i roi gwybod i'r banc am y newid yn amgylchiadau'r cwsmer. Efallai y bydd y banc yn mynnu y dylid cau'r cyfrif ac agor un arall yn enw'r penodai yn unig.

Gellir defnyddio POca i gael budd-daliadau ond rhaid iddo fod yn enw'r penodai yn unig.

Pethau i'w hystyried

Dylai'r cyfrif y telir budd-daliadau a phensiynau i mewn iddo fel arfer fod yn enw'r penodai yn unig. O ran cyfrif ar y cyd, bydd angen i ddau ddeiliad y cyfrif gymryd yr un cyfrifoldeb dros weithredu'r cyfrif hwnnw. Ni all hyn ddigwydd os

na all un parti ddeall beth sy'n digwydd gyda'r cyfrif. Fodd bynnag, lle mae trefniant cyfrif ar y cyd hirsefydlog (rhwng, er enghraifft, gŵr a gwraig) efallai y bydd y banc yn fodlon gadael i hyn barhau.

Os nad yw cyflogai yn awyddus i drefnu cyfrif ar wahân, dylid ei annog i o leiaf roi gwybod i'r banc am y newid yng nghyflwr y cwsmer, h.y. nad yw'n yn gallu rheoli ei faterion mwyach.

Opsiynau Eraill

Gall cwsmer gael Pŵer Atwrnai (PA) p'un a yw'n gallu rheoli ei faterion ei hun ai peidio. Pan fydd gan rywun Bŵer Atwrnai Arhosol neu Barhaus **cofrestredig** (Cymru a Lloegr) neu Bŵer Atwrnai Parhaus (Yr Alban), ni ddylai fod angen penodai gan yr Ysgrifennydd Gwladol arnynt hefyd.

Gall PA gymryd drosodd trefnu POca a agorwyd gan y cwsmer yn flaenorol. Ni fydd PA yn gallu agor POca newydd ar ran y cwsmer na chael ei fudd-daliadau ei hun wedi'u talu i gyfrif POca y cwsmer.

Gall y Llys Diogelu (Cymru a Lloegr) hefyd benodi rhywun (a elwir yn Ddirprwy) i weinyddu bob agwedd ar faterion y cwsmer, neu rai ohonynt, gan gynnwys budd-daliadau, mewn achosion lle na all y cwsmer reoli ei faterion ei hun. Ni chaniateir talu budd-daliadau i gyfrif personol y Dirprwy. Dylai'r Dirprwy agor cyfrif newydd, gan ei gwneud yn glir bod y Dirprwy yn gweithredu ar ran y cwsmer.

Yn yr Alban gall y llysoedd benodi "Gwarcheidwad" i ofalu am bob agwedd ar faterion y cwsmer neu rai ohonynt. O dan ddeddfwriaeth yn Neddf Oedolion ag Analluogrwydd (Yr Alban) 2000, dylai'r cyfrif fod yn enw'r cwsmer ond dylid ei gwneud yn glir bod y Gwarcheidwad yn gweithredu ar ran y cwsmer. Ni fydd DWP yn talu arian yn uniongyrchol i'r Gwarcheidwad.

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am y ffordd y caiff budd-daliadau a phensiynau eu talu cysylltwch â'r swyddfa sy'n talu eich budd-dal/pensiwn.

Mae'r Cymdeithas Bancwyr Prydain wedi cyhoeddi taflen sy'n rhoi cyngor ar sut i reoli gyfrif banc person arall pan nad ydynt bellach yn meddu ar allu.

» Banking for people who lack capacity to make decisions (gwefan Cymdeithas Bancwyr Prydain)